Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN27:

- **Gwastraff Solet a Miniog sytotocsig a sytostatig / Gwastraff meddyginiaethau heintus**

(bocs gwastraff clinigol â chaead porffor)

| | |
|---|---|
| **Diweddarwyd Gan:** | Ben Harris (Swyddog Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y fersiwn:** | 18/11/2025 |

| Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff WMGN27<br>Gwastraff Solet a miniogsytotocsig a sytostatig / Gwastraff meddyginiaethau heintus | |
|---|---|
| Man creu | **Categori Labordy CA2** |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 18 01 03* / 18 01 08* / 18 02 02* / 18 02 07* |
| Math | Dosbarth 6.2 - UN 3291 / Dosbarth 6.1 - 1851/3248 |
| Dull gwaredu | Categori Gwastraff A (Awtoclafio)<br>Rheoli - gwastraff peryglus HP6/HP7/HP9/HP10/HP11<br>Didoli i'w losgi |
| Math Bin/Bag | **Bocs clinigol melyn gwrymiog sydd â chaead porffor**<br>7 litr, 1 litr, 24 litr |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

EWC 18 01 03* "Mae casglu a gwaredu gwastraff heintus o ofal iechyd pobl yn amodol ar ofynion arbennig er mwyn atal haint"

EWC 18 01 08* "Gwastraff peryglus o ofal iechyd pobl, yn benodol meddyginiaethau sytotocsig a sytostatig"

EWC 18 02 02* "Mae casglu a gwaredu gwastraff heintus o ofal iechyd anifeiliaid yn amodol ar ofynion arbennig er mwyn atal haint"

EWC 18 02 07* "Gwastraff peryglus o ofal iechyd anifeiliaid, yn benodol meddyginiaethau sytotocsig a sytostatig"

Mae angen triniaeth/gwarediad mynegol megis llosgi mewn cyfleuster addas trwyddedig.

**Disgrifiad;** Gwastraff clinigol meddyginiaeth sytotocsig a sytostatig, sy'n heintus, o ofal iechyd pobl ac anifeiliaid i'w losgi yn unig.

Mae'n ofyniad cyfreithiol dan Reoliadau Gwastraff Peryglus i wahanu gwastraff peryglus oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus i sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu'n gywir.
Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd wastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol sy'n dibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio.
Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Mae Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel[1], yn darparu arweiniad cynhwysfawr ar waredu gwastraff gofal iechyd yn unol â safonau'r diwydiant, a gofynion cyfreithiol, ac yn amlinellu'r system cod lliw a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwastraff gofal iechyd/clinigol.

| | |
|---|---|
| | **Infectious Cytotoxic & Cytostatic Waste/Medicine Waste** |

[1] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 07-01: Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel

Ffigur 1: Disgrifiad

Meddyginiaethau sytotocsig yw unrhyw gyffur sydd wedi'i ddylunio i gael effaith wenwynig ar gelloedd. Nod cyffuriau sytostatig yw atal twf celloedd.

Ystyrir meddyginiaeth yn sytotocsig neu'n sytostatig at ddibenion gwastraff os oes ganddo un neu fwy o'r nodweddion peryglus canlynol:

- Gwenwynig iawn **HP6**
- Carsinogenig **HP7**
- Mwtagenaidd **HP11**
- Yn wenwynig i'w atgynhyrchu **HP10**

Mae enghreifftiau'n cynnwys; **Acrylamid, Mantoux a Bromid Ethidiwm**

## Eitemau gwastraff

Mae'n rhaid i'r eitemau gwastraff canlynol a gafodd eu creu o ganlyniad i ymchwil, neu drin cleifion heintus a'r rhai y tybiwyd eu bod yn heintus, ac efallai ar gyfer gweinyddu meddyginiaethau sytotocsig a sytostatig, yn ogystal â meddyginiaethau sytotocsig a sytostatig gael eu gwahanu er mwyn eu llosgi;

- Nodwyddau a chwistrellau
- Llafnau
- Siswrn
- Bagiau, llinellau a thiwbiau mewnwythiennol y mae meddyginiaeth sytotocsig/sytostatig wedi'i hychwanegu atynt
- Ffiolau
- Pecynnau profi
- Tiwbiau samplo plastig
- Pipedau serolegol
- Blaenau plastig
- Pibedau plastig
- Tiwbiau samplo
- Stribedi profi
- Swabiau
- Meddyginiaethau sytotocsig/sytostatig sydd heb eu defnyddio, wedi'u defnyddio'n rhannol ac allan o ddyddiad
- **Dillad Diogelu Personol PPE – menig a mygydau, ffedogau**
- **Rholyn glas / Tywelion papur**

Yn sgil natur beryglus y gwastraff, ni ddarperir bagiau. Dim ond bocsys clinigol â chaead porffor y gellir eu defnyddio.

Dim eitemau gwastraff: gall eitemau miniog neu nad ydynt yn finiog sydd wedi'u halogi â meddyginiaethau sytotocsig a sytostatig gael eu rhoi mewn bag gwastraff clinigol melyn.

**Ni ddylid gwaredu â gwastraff hylifol sy'n cynnwys deunydd sytotocsig/sytostatig i'r ddraen** ond yn hytrach ei osod mewn cynhwysydd priodol a seliwyd a'i osod yn y bocs

| |
|---|
| gwastraff clinigol â chaead porffor i'w waredu. Am ragor o arweiniad, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk. |

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

### Storio Mewnol

**Biniau Porffor ar gyfer Eitemau Miniog - Corff melyn, Caead porffor, Dosbarth 6.2**
Mae'n rhaid gosod yr holl eitemau solet a miniog sydd wedi'u halogi â gwastraff clinigol heintus a sylweddau sytotocsig a sytostatig mewn bocs eitemau miniog sydd â chaead porffor i'w gwaredu.




Ffigwr 2 - Enghraifft o focs melyn â chaed porffor

Peidiwch â gadael gormodedd o focsys gwastraff sytotocsig/statig mewn ystafelloedd oer neu rewgelloedd, mae'n rhaid gwaredu â'r rhain yn rheolaidd oherwydd bod cyfyngiadau cyfreithiol yn cael eu gosod ar storio gwastraff peryglus.

Gall bocsys melyn â chaead porffor gael eu harchebu/canfod a'u llofnodi o'r lleoliadau canlynol;

### Campws Singleton

- Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd - Storfeydd ILS1

Ar gyfer Cyfadran neu Uned Gwasanaeth Proffesiynol arall, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

### Cost Gwaredu

Mae cost am y gwasanaeth hwn, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am ragor o wybodaeth


**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch** Estates-Waste@abertawe.ac.uk

### Ffurflenni a Labelu

Gellir dod o hyd i'r holl ffurflenni, labeli a rhagor o arweiniad am wastraff perthnasol yma

## Atodiad 1 : Diagram Gwahanu a Dosbarthu Gwastraff[2]

Defnyddiwch y diagram llif canlynol i sicrhau eich bod yn defnyddio'r bin lliw cywir i'ch gwastraff




Sylwer: Er bod yr arweiniad hwn yn berthnasol yn benodol i wastraff o leoliadau clinigol a gofal iechyd, gall gael ei ddefnyddio i lywio arferion gwastraff mewn amgylcheddau labordy eraill. Fodd bynnag, cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff(WMGN)perthnasol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus arall.

[2] Memorandwm Technegol Iechyd 07-01: Atodiad 3